**Cyfarwyddyd a ddyroddir gan Weinidogion Cymru i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru o dan adran 52 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008[1]**

**yn unol ag erthygl 60(6) o Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020**

## 1. Dehongli

1.1 Yn y Cyfarwyddyd hwn:

1.1.1 ystyr "Gorchymyn CMA y DU" yw Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020[2],

1.1.2 ystyr "rheoleiddiwr" yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru, yn unol ag erthyglau 9 a 10 o Orchymyn CMA y DU, ac

1.1.3 ystyr "awdurdod cenedlaethol perthnasol" yw Gweinidogion Cymru, yn unol ag adran 47 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008[3].

## 2. Diben

2.1 Mae hwn yn Gyfarwyddyd i'r rheoleiddiwr o dan adran 52 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008. Diben y Cyfarwyddyd yw bodloni gofynion erthygl 60(6) o Orchymyn CMA y DU, sef:

"The regulator must –

(a) estimate CA and RE under paragraph (2); and
(b) exercise the regulator's functions under paragraph (5),

in accordance with a direction given by the relevant national authority under section 52 of CCA 2008."

2.2 Os yw allyriadau adroddadwy gweithfa mewn blwyddyn gynllun y mae'r weithfa yn allyrrydd bach iawn ar ei chyfer yn fwy na'r hyn sy'n gyfwerth â 2,499 o dunelli o garbon deuocsid, rhaid i'r gweithredwr hysbysu'r rheoleiddiwr erbyn 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol. Yna rhaid i'r rheoleiddiwr roi hysbysiad i'r gweithredwr a rhaid bod gan y gweithredwr drwydded o 1 Ionawr yn y flwyddyn yn dilyn y flwyddyn y rhoddir yr hysbysiad. Gall y drwydded fod yn drwydded allyriadau nwyon tŷ gwydr neu, os yw'r weithfa yn gymwys, drwydded ysbyty neu drwydded allyrrydd bach.

[1] Mae adran 52(1) o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 yn datgan y caiff Gweinidogion Cymru (fel yr awdurdod cenedlaethol perthnasol) roi cyfarwyddydau i weinyddwr cynllun masnachu. Diffinnir y term 'administrator' yn adran 55 o'r Ddeddf drwy groesgyfeirio at baragraff 21 o Atodlen 2 i'r Ddeddf, sy'n datgan y caiff rheoliadau bennu pwy sy'n weinyddwr. Mae erthygl 9(3) o Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 yn pennu bod y cyrff a restrir yn rheoleiddwyr cynllun masnachu yn erthygl 9(1) hefyd yn weinyddwyr at ddibenion paragraff 21 o Atodlen 2 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008. Mae'r rheoleiddwyr a restrir yn erthygl 9 yn cynnwys Corff Adnoddau Naturiol Cymru (erthygl 9(1)(c)).
[2] O.S. 2020/1265
[3] 2008 p. 27

2.3 Mae Erthygl 60(1) o Orchymyn CMA y DU yn datgan bod gweithredwr yn agored i gosb sifil pan fo:

"(a) an installation's reportable emissions in a scheme year (the "excess year") for which the installation is an ultra-small emitter exceed the maximum amount; and

(b) the operator of the installation fails to give notice to the regulator under paragraph 6 of Schedule 8 on or before 31st March in the following year (the "default year") or at all."

2.4 Mae Erthygl 60(2) i (5) yn nodi y cyfrifir y gosb fel a ganlyn:

"(2) The civil penalty is the sum of-

(a) £2,500; and

(b) CA + ((RE – FA) x CP) for each scheme year (or part of a scheme year) falling within the penalty period (if any), where –

CA is an estimate of the costs avoided by the operator in the scheme year (or part of the scheme year) as a result of carrying out a regulated activity without the authorisation of the relevant permit;

RE is an estimate of the installation's reportable emissions in the scheme year (or part of the scheme year) during which a regulated activity that was not authorised by a permit was carried out;

FA is—

(a) where—

(i) an application in respect of the installation was made under the Free Allocation Regulation for free allocation in the same allocation period as the penalty year is in;

(ii) the UK ETS authority informed the regulator under Article 15a(4) of that Regulation that the application was valid; and

(iii) paragraph 7(5) of Schedule 8 does not apply (ultra-small emitter becoming hospital or small emitter),

the number of tonnes of carbon dioxide equivalent represented by the final annual number of allowances that would have been allocated under Part 4A in respect of the installation for the scheme year (or part of the scheme year) if the installation had not been included in the ultra-small emitter list for 2021-2025 or, as the case may be, the ultra-small emitter list for 2026-2030, disregarding any adjustment to free

allocation that might have been made under the Activity Level Changes Regulation;

(b) in any other case, zero;

CP is the carbon price for the scheme year.

(2A) For the purpose of determining the value of FA under paragraph (2)(b) in a case where part of a scheme year falls within the penalty period, the final annual number of allowances that would have been allocated under Part 4A in respect of the installation for that part of the scheme year is the final annual number of allowances that would have been allocated in respect of an installation for the scheme year multiplied by D/Y, where—

D is the number of days in the scheme year in the penalty period;

Y is the number of days in the scheme year.

(3) The penalty period is the period –

(a) beginning on 1st January in the year following the default year; and

(b) ending on the earlier of the following -

(i) the day before the day on which a permit for the installation comes into force; and
(ii) the last day of the same allocation period as the excess year is in.

(4) But there is no penalty period if –

(a) 1st January in the year following the default year is not the same allocation period as the excess year; or

(b) a permit for the installation is in force on that date.

(5) When setting the amount of the civil penalty to be imposed, the regulator may increase the amount calculated under paragraph (2)(b) by a factor designed to ensure that the amount of the civil penalty exceeds the value of any economic benefit that the operator has obtained as a result of carrying out a regulated activity that was not authorised by the relevant permit."

**3. Cyfarwyddyd ynghylch cyfrifiadau o dan erthygl 60(2)**

3.1 Mae'r elfen o'r gosb sifil yn erthygl 60(2) wedi ei chynllunio i dalu cyfanswm y costau y mae'r gweithredwr wedi eu hosgoi o ganlyniad i gyflawni gweithgaredd a reoleiddir heb drwydded. Cyfarwyddir y rheoleiddiwr i gyfrifo'r elfen hon o'r gosb sifil yn flynyddol ac i'r cyfansymiau blynyddol hyn gael eu hadio at ei gilydd fel sail cyfanswm y costau sydd wedi eu hosgoi.

3.2 Cyfarwyddir y rheoleiddiwr i asesu'r costau canlynol wrth gyfrifo'r costau sydd wedi eu hosgoi:

3.2.1 taliadau sydd wedi eu hosgoi, a

3.2.2 costau monitro, costau adrodd, costau dilysu a chostau gweinyddol eraill sydd wedi eu hosgoi.

3.3 Mewn perthynas â thaliadau sydd wedi eu hosgoi, rhaid i'r rheoleiddiwr gyfrifo'r ffioedd cynhaliaeth blynyddol a fyddai wedi bod yn daladwy gan y gweithredwr ym mhob blwyddyn o ddiffyg cydymffurfio (gan gynnwys ar gyfer gweithgarwch rheoleiddio ac, os yw'n berthnasol, gweinyddu'r gofrestrfa).

3.4 Mewn perthynas â chostau monitro, costau adrodd, costau dilysu a chostau gweinyddol sydd wedi eu hosgoi, rhaid i'r rheoleiddiwr seilio ei amcangyfrifon ar y ffigurau yn Atodiad I. Mae'r ffigurau yn wahanol gan ddibynnu ar ba un a ddylai'r gweithredwr fod wedi bod â thrwydded allyriadau nwyon tŷ gwydr neu drwydded ysbyty neu drwydded allyrrydd bach yn ystod y cyfnod o ddiffyg cydymffurfio. Os oes angen, gellir cyfrifo'r swm ar sail pro rata i ystyried nifer y diwrnodau y gwnaeth y gweithredwr gyflawni gweithgaredd a reoleiddir heb drwydded mewn unrhyw flwyddyn.

3.5 Mewn perthynas â'i gyfrifiad o allyriadau adroddadwy, cyfarwyddir y rheoleiddiwr i amcangyfrif allyriadau adroddadwy'r weithfa o'r dyddiad y dylai'r gweithredwr fod wedi bod â thrwydded hyd at y diwrnod cyn i'r gweithredwr gael trwydded (neu ddiwrnod olaf y cyfnod dyrannu, os yw'n gynharach).

**4. Cyfarwyddyd ynghylch arfer swyddogaethau o dan erthygl 60(5)**

4.1 Caiff y rheoleiddiwr gynyddu'r swm a gyfrifir o dan erthygl 60(2)(b) gan ffactor sydd wedi ei gynllunio i sicrhau bod swm y gosb sifil yn fwy na gwerth unrhyw fudd economaidd y mae'r gweithredwr wedi ei gael o ganlyniad i weithredu heb drwydded. Mae'r elfen hon o'r gosb o dan erthygl 60(5) wedi ei chynllunio i fod yn swm cosbol, sydd i'w hadio at yr elfen cyfanswm y costau sydd wedi eu hosgoi o'r gosb sifil.

4.2 Wrth bennu swm y gosb sifil sydd i'w gosod, caiff y rheoleiddiwr ychwanegu at yr elfen cyfanswm y costau sydd wedi eu hosgoi o'r gosb sifil yr uchaf o:

4.2.1 swm sydd gyfwerth â 10% o'r elfen cyfanswm y costau sydd wedi eu hosgoi o'r gosb sifil, neu

4.2.2 £2,500.

4.3 At y dibenion hyn, mae'r cyfeiriad at yr elfen cyfanswm y costau sydd wedi eu hosgoi o'r gosb sifil yn gyfeiriad at y swm hwnnw cyn i unrhyw ostyngiad gael ei gymhwyso gan y rheoleiddiwr o dan erthygl 48 o Orchymyn CMA y DU.

**5. Dod i rym**

5.1 Daw’r Cyfarwyddyd hwn i rym ar 6 Hydref 2023.

Llofnodwyd gan:



Enw: Julie James

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: 04/10/2023

# ATODIAD I

Mae'r ffigurau a nodir isod yn deillio o'r ymchwil 'Assessment of costs to UK participants of compliance with Phase III of the EU Emissions Trading Scheme' a gyhoeddwyd gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ym mis Awst 2016.

Yn 2016, y costau monitro, costau adrodd, costau dilysu a chostau gweinyddol eraill cyfartalog ar gyfer pob blwyddyn oedd, mewn perthynas â'r canlynol:

- trwyddedau allyriadau nwyon tŷ gwydr - £17,700
- trwyddedau ysbyty neu allyrrydd bach - £3,900

Rhaid lluosi'r ffigur hwn â ffactor chwyddiant a'i gymhwyso ar gyfer pob blwyddyn gynllun pan gyflawnodd y gweithredwr weithgaredd a reoleiddir heb drwydded.

Y ffactor chwyddiant yw CPI2/CPI1 neu 1, pa un bynnag sydd fwyaf, pan—

> CPI2 yw'r mynegai prisiau defnyddwyr ar gyfer mis Mawrth yn y flwyddyn gynllun pan gyflawnodd y gweithredwr weithgaredd a reoleiddir heb drwydded;
>
> CPI1 yw'r mynegai prisiau defnyddwyr ar gyfer mis Mawrth 2016.

Yn yr Atodiad hwn, ystyr mynegai prisiau defnyddwyr yw:

(a) y mynegai prisiau defnyddwyr ar gyfer pob eitem a gyhoeddir gan y Bwrdd Ystadegau, neu
(b) os na chyhoeddir y mynegai hwnnw am fis, unrhyw fynegai neu ffigurau mynegai a amnewidiwyd a gyhoeddir ar gyfer y mis hwnnw gan y Bwrdd Ystadegau.